

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Dyddiad Cyhoeddi: 28 Medi 2017



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**STATWS: GWEITHREDU A GWYBODAETH**

**CATEGORI: ANSAWDD A DIOGELWCH**

**Teitl: CYNLLUN IECHYD GWAED GIG CYMRU**

**Dyddiad dod i ben/Adolygu: Medi 2019**

**I'w weithredu gan aelodau canlynol Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau:**

Cadeiryddion  
Prif Weithredwyr  
Ysgrifenyddion Byrddau  
Ysgrifennydd i Grŵp Ysgrifenyddion y Bwrdd  
Cyfarwyddwyr Meddygol  
Cyfarwyddwyr Nyrsio  
Cyfarwyddwyr Therapïau a Gwyddorau Iechyd  
Cyfarwyddwyr Cynllunio  
Tîmau Arennol  
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd  
Meddygon a Nyrsys Rheoli Heintiau  
Prif Fferyllwyr Ysbytai

**Er gwybodaeth:**

Cyfarwyddwr Cyffredinol/Prif Weithredwr GIG Cymru  
Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru  
Y Prif Swyddog Gwyddonol  
Y Prif Gynghorydd Fferyllol  
Arweinwyr Polisi a Phroffesiwn  
Tîm Gweithrediadau AIGC  
Tîm Cyfathrebu AIGC  
Tîm Digidol AIGC  
Galw Iechyd Cymru  
Partneriaeth Cydwasanaethau Cymru i'w ddosbarthu i bractisau meddygon teulu, fferyllfeydd cymunedol a phractisau deintyddol cyffredinol

**Angen gweithredu erbyn:**

Gweler paragraff 3

**Anfonir gan:** Dr Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol, yr Athro Jean White, Prif Swyddog Nyrsio/Cyfarwyddwr Nyrsio

**Enwau Cyswilt yn Llywodraeth Cymru:** Jenny Thorne, Pennaeth Polisi Diogelwch Gwaed – [jenny.thorne@gov.wales](mailto:jenny.thorne@gov.wales) neu Catherine Cody [Catherine.cody@gov.wales](mailto:Catherine.cody@gov.wales) Ffôn: 0300 025 1443.

## **CYNLLUN IECHYD GWAED Y GIG**

1. Diben y Cylchlythyr Iechyd hwn yw tynnu sylw at Gynllun Iechyd Gwaed GIG Cymru (y Cynllun) sydd wedi ei gyhoeddi gan Wasanaeth Gwaed Cymru. Cafodd y Cynllun ei ddatblygu gan staff o wahanol sefydliadau yn y GIG, gyda chymorth Cyfarwyddwyr Meddygol Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau, ac fe'i cydlynwyd gan Wasanaeth Gwaed Cymru.

### **Y Cefndir**

2. O dan rai amgylchiadau, mae gwaed a chyfansoddion gwaed yn hanfodol gan eu bod yn achub bywydau. Fodd bynnag, nid yw trallwysiadau'n gyfan gwbl heb unrhyw risg, ac mae'n bosibl i'r claf gael adwaith (sydd o bosibl yn peryglu bywyd) neu i'r trallwysiad drosglwyddo haint. Mae yna gyfoeth o ganllawiau, gofynion statudol ac arferion gorau sy'n gysylltiedig â bod yn gymwys i roi gwaed, sgrinio/cynnal profion ar waed, a chynhyrchu'r cynhyrchion, felly nid yw'r Cynllun yn canolbwyntio ar y materion hyn.
3. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod gwaed a chyfansoddion gwaed yn cael eu defnyddio dim ond pan fo'u hangen, a phan nad oes unrhyw ddewis arall. Felly mae'r Cynllun yn gosod cyfeiriad ar gyfer sicrhau bod arferion iechyd gwaed yn adlewyrchu tri nod craidd sy'n seiliedig ar egwyddorion gofal iechyd darbodus:
  - helpu unigolion i reoli eu hiechyd a'u llesiant, gan osgoi ymyriadau diangen;
  - defnyddio tystiolaeth a data tryloyw i lywio'r gwaith o gynllunio a gwella gwasanaethau er mwyn lleihau amrywiant nad yw'n briodol; ac
  - osgoi niwed.
4. Mae'n cynnwys nifer o gamau gweithredu penodol; sut y byddant yn cael eu cyflawni; y canlyniadau disgwylidig; ynghyd â dulliau mesur llwyddiant. Mae'r camau gweithredu hyn yn adeiladu ar y cynnydd sylweddol a wnaed yn ystod y pymtheg mlynedd diwethaf drwy'r trefniadau ar gyfer gweithredu *Rheoliadau Diogelwch ac Ansawdd Gwaed 2005*<sup>1</sup> a'r strwythur a sefydlwyd bryd hynny (WHC 2005 063<sup>2</sup>) i fodloni'r safonau cyffredinol ar gyfer defnyddio cyfansoddion gwaed mewn modd diogel a phriodol mewn ymarfer clinigol. Bu ymarferwyr mewn ysbytai a Thîm Gwella Trallwyso Gwaed Gwasanaeth Gwaed Cymru yn gweithio ar y cyd i sicrhau bod y safonau'n cael eu bodloni. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys safoni prosesau ac arferion; addysg; archwilio; a meincnodi arferion clinigol a labordai.

---

<sup>1</sup> [2005 BSQR](#)

<sup>2</sup> [WHC-2005-063.pdf - nid yw ar gael bellach](#)

5. Mae symud i Wasanaeth Gwaed Cymru ym mis Mai 2016, a'r systemau/prosesau TG newydd ar gyfer casglu data wedi creu momentwm newydd yn yr ymdrechion i wella'r dulliau o hyrwyddo a rheoli iechyd gwaed.
6. Gan fod y gwaith o greu'r Cynllun wedi ei gyflawni ar y cyd, dylai pob ymddiriedolaeth/bwrdd iechyd fod yn gweithio i'w weithredu, gan sicrhau bod yr amcanion strategol a'r ymrwymadau trosfwaol wedi eu cynnwys yn eu Cynllun Tymor Canolig Integredig.
7. Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru wrthi'n sefydlu grŵp arwain cenedlaethol i oruchwylio'r gwaith o weithredu'r Cynllun drwy raglen waith glir, a'r cam nesaf yw trefnu bod cynrychiolaeth briodol o'r GIG yng Nghymru.



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

# Cenedlaethol Cynllun Iechyd Gwaed



## Crynodeb Gweithredol

Mae trallwysiad gwaed yn rhodd. Yn wahanol i unrhyw gydran arall a ddefnyddir mewn gofal, caiff gwaed ei roi yn rhydd gan bobl. Mae'n rhaid i ni drysori'r rhodd hon, dileu gwastraff a dangos i roddwyr sut mae eu rhodd yn cael ei defnyddio. I bobl y mae angen cydrannau gwaed arnynt, mae'n rhaid i ni eu gwerthfawrogi fel unigolion, cydnabod nad yw trallwysiad heb risg, cytuno gyda nhw ar y driniaeth sydd ond yn gwneud yr hyn sy'n angenrheidiol ac nad yw'n gwneud niwed.

Mae'r cynllun hwn yn nodi cyfeiriad ar gyfer iechyd gwaed ac ymarfer trallwysiad. Mae wedi cael ei ysgrifennu gan y GIG a staff GIG Cymru fydd yn berchen arno ac yn ei gyflawni. Ni fydd y cynllun yn canolbwyntio ar roi gwaed na chynhyrchu cydrannau a chynhyrchion gwaed ond bydd yn canolbwyntio ar iechyd gwaed da a'r defnydd o gydrannau gwaed. Mae'r cynllun yn darparu nifer o gamau gweithredu craidd, canlyniadau disgwylidig ac yn nodi sut y caiff llwyddiant ei fesur.

## Nodau Strategol

Mae tri nod strategol sydd wrth wraidd y cynllun hwn. Maent yn defnyddio egwyddorion gofal iechyd darbodus a nodweddion unigryw GIG Cymru, system a gynlluniwyd gydag ansawdd yn ganolog iddi.

- cefnogi unigolion i reoli eu hiechyd a'u lles, gan osgoi ymyrraeth ddiangen
- defnyddio tystiolaeth a data tryloyw i lywio'r gwaith o gynllunio a gwella gwasanaethau i leihau amrywiad amhriodol
- osgoi niwed, gan osod diogelwch ac ansawdd wrth wraidd gofal.

## Cyd-destun

Mae poblogaeth Cymru yn heneiddio; rydym am i'n poblogaeth heneiddio'n dda, a byw bywydau llawn a diddorol. Mae angen i bobl ystyried eu hiechyd gwaed fel rhan o'r broses o gymryd rheolaeth dros eu bywydau. Mae pobl yn byw'n hirach nag erioed o'r blaen gyda chyflyrau mwy cronig a chymhleth. Defnyddir cydrannau gwaed ar hyn o bryd fel rhan o'r gofal ar gyfer amrywiaeth o gyflyrau gyda thros 50% yn cael eu defnyddio mewn pobl dros 70 oed<sup>1</sup>. Er bod y defnydd cyffredinol o gelloedd coch y gwaed yn lleihau, mae angen i ni fod yn ystyriol o newidiadau mewn galw yn unol â newidiadau demograffig.

Mae poblogaeth sy'n heneiddio hefyd yn effeithio ar roddion gwaed, oherwydd nid yw rhoddwyr iau o reidrydd yn cymryd lle'r rheini sy'n mynd yn rhy hen neu'n anaddas i roi. Mae ffyrdd gwahanol o fyw, mwy o deithio tramor, afiechydon sy'n datblygu a chyfrifoldeb cymdeithasol newidiol yn effeithio ar gyflenwad gwaed gyda mwy a mwy o roddwyr yn gorfod cael eu gwrthod a llai o roddwyr rheolaidd o'r grwpiau oedran iau.

Mae amrywiaeth yn y defnydd o waed ym mhob rhan o'r gwasanaeth iechyd a cheir tystiolaeth i awgrymu y gellir gwella canlyniadau ar gyfer pobl drwy ddefnyddio cydrannau gwaed yn fwy effeithiol. Nid yw trallwysu cydrannau gwaed heb ei risgiau. Mae'r rhain yn cynnwys mwy o berygl o haint, gorfod aros yn hirach yn yr ysbyty a chyfradd marwolaethau uwch o driniaethau llawfeddygol. Mae cleifion sy'n derbyn trallwysiad celloedd coch ar gyfer llawdriniaeth gardiaidd y nodwyd eu bod yn anemig cyn y llawdriniaeth yn debygol o dreulio dau ddiwrnod yn fwy yn yr ysbyty gyda chynnydd o 16% yn y tebygolrwydd o farwolaeth<sup>2</sup>. Nid yw hyn yn golygu y dylid osgoi trallwysiad bob amser. Gall tan-drallwysu hefyd achosi niwed i gleifion ac mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ar ddefnydd priodol a diogel.

Gwnaed cynnydd wedi'i arwain gan newidiadau deddfwriaethol i roi fframwaith rheoleiddio cadarn ar waith ar gyfer ymarfer labordy. Cynhaliwyd gweithgarwch i leihau risgiau drwy safoni prosesau ac ymarfer. Dan arweiniad y Tîm Gwaed Gwell mae'r broses o archwilio a meincnodi ymarfer clinigol ac ymarfer yn y labordy, datblygu pecynnau hyfforddi newydd, rhaglenni addysgol penodol a dogfennaeth Cymru gyfan ar gyfer trallwysiad gwaed gyda pholisïau safonedig wedi cefnogi'r broses o wella'r gwasanaeth.

---

<sup>1</sup> 'Where does Blood Go?' Gwasanaeth Gwaed Cymru 2014

<sup>2</sup> Klein, A.A., *et al.* 2016. The incidence and importance of anaemia in patients undergoing cardiac surgery in the UK—the first Association of Cardiothoracic Anaesthetists national audit. *Anaesthesia*, 71(6), pp.627-635.

Gan adeiladu ar y cynnydd hwn ac wrth symud i Wasanaeth Gwaed Cymru Gyfan ym mis Mai 2016, systemau a phrosesau TG newydd sy'n darparu mwy o ddata, a'r cyfeiriad a bennwyd gan yr Egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus, nod y cynllun hwn yw dod â momentwm newydd i'r broses o yrru gwelliant mewn iechyd gwaed a rheoli gwaed.



## Cyflawni ein nodau

# Cefnogi unigolion i reoli eu hiechyd a'u lles, gan osgoi ymyrraeth ddiangen

## Beth mae hyn yn ei olygu

Byddwn yn helpu unigolion i reoli Anemia diffyg haearn yn well i leihau'r angen am drallwysiad posibl	Byddwn yn gweithio gyda staff gofal iechyd sy'n gweithredu yn y gymuned er mwyn helpu unigolion i reoli eu hiechyd gwaed	Caiff ystyriaethau trallwysio eu hymgorffori yn y gwaith o gynllunio gofal gydag unigolion	Caiff staff eu grymuso i ddarparu rheolaeth iechyd gwaed da
---	--	--	---

## Yr hyn y mae angen i ni ei wneud i gyflawni hyn

- Byddwn yn gweithio ar gyfer grwpiau cleifion a grwpiau poblogaeth penodol sy'n wynebu'r risg fwyaf er mwyn gwella ymwybyddiaeth o anemia diffyg haearn
- Bydd rhaglenni wedi'u targedu i helpu'r rheini sy'n darparu gofal yn y gymuned er mwyn helpu unigolion i atal, nodi a rheoli anemia
- Byddwn yn datblygu egwyddorion anemia cenedlaethol ac yn sicrhau y caiff yr egwyddorion eu hadlewyrchu yn y llwybrau gofal priodol
- Byddwn yn datblygu canllawiau cenedlaethol ar gyfer trallwysio yn y gymuned
- Byddwn yn gweithio gyda grwpiau clinigol perthnasol i gefnogi'r gwaith o reoli gwaed unigoleddig mewn llwybrau gofal perthnasol
- Byddwn yn adolygu llwybrau clinigol y pum defnyddiwr cydrannau gwaed mwyaf
- Byddwn yn darparu addysg er mwyn helpu staff perthnasol i gael sgysiau effeithiol er mwyn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau clinigol
- Byddwn yn gweithio gyda'r gymuned glinigol er mwyn sicrhau bod asesiadau cyn llawdriniaethau yn cynnwys asesu trallwysladau ac iechyd gwaed - gan gynnwys tynnu cleifion sydd ag anemia oddi ar y rhestr lle y bo'n briodol
- Byddwn yn dod â pholisïau gwaedlif mawr lleol ynghyd er mwyn datblygu fframwaith cenedlaethol



## Cyflawni ein nodau

# Defnyddio tystiolaeth a data tryloyw i lywio'r gwaith o gynllunio a gwella gwasanaethau i leihau amrywiad amhriodol

## Beth mae hyn yn ei olygu

Mae data ar drallwysu ar gael yn eglur i gefnogi'r gwaith o gynllunio gwasanaethau i gefnogi'r broses o sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyfateb i'r galw	Mae data ar drallwysu wedi'u cyhoeddi'n agored i amlygu amrywiaeth mewn ymarfer	Mae data ar gael i staff i gefnogi sgysiau effeithiol am ymarfer clinigol	Mae gwybodaeth ar gael i staff mewn lleoliadau gofal iechyd
--	---	---	---

## Yr hyn y mae angen i ni ei wneud i gyflawni hyn

- Byddwn yn sefydlu set ddata craidd cenedlaethol gyda mesur perfformiad a chanlyniadau y cytunwyd arno
- Bydd systemau ar gyfer penderfynu sut y caiff cydrannau gwaed eu defnyddio e.e. gan grwpiau diagnostig meddygol a llawfeddygol mawr a gan dimau clinigol a chlinigwyr unigol.
- Bydd adnoddau a chyfleoedd ar gyfer cyflwyno data ar y defnydd o waed a data archwilio yn ôl i dimau clinigol a chlinigwyr a phobl unigol
- Byddwn yn gweithredu'n hollol dryloyw, gan ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd am y defnydd o gydrannau gwaed

## Cyflawni ein nodau

# Osgoi niwed, gan osod diogelwch ac ansawdd wrth wraidd gofal

## Beth mae hyn yn ei olygu

Lleihau risg o adwaith i drallwysiad	Dulliau monitro a chyflwyno adroddiadau effeithiol am ddigwyddiadau wedi'u hymgorffori mewn systemau ansawdd cryf	Cefnogi gwaith ymchwil ac ymarfer sy'n esblygu'n barhaus yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael
--------------------------------------	---	--

## Yr hyn y mae angen i ni ei wneud i gyflawni hyn

- Byddwn yn sefydlu rhaglen archwilio ac yn manteisio ar archwiliadau presennol i yrru'r broses o wella gwasanaethau
- Bydd proses cofnodi digwyddiadau gadarn (megis Peryglon Difrifol Trallwysio Gwaed) a phrosesau dilynol ar waith ar lefel leol a chenedlaethol
- Byddwn yn sefydlu rhaglen adolygiad gan gymheiriaid yn unol â fframwaith GIG Cymru
- Byddwn yn datblygu Strategaeth Addysg Iechyd Gwaed

## Trefniadau goruchwylio


Byddwn yn rhoi grŵp goruchwylio cenedlaethol newydd ar waith a fydd yn cymryd lle'r Grŵp Cynghori Clinigol a'r Grwpiau Polisi Gwaed a Gweithredu presennol. Bydd yn strwythur syml gyda chyfarfod un grŵp cenedlaethol unwaith neu ddwy y flwyddyn, gyda rhaglen glir o waith yn canolbwyntio ar y tri maes craidd. Bydd yn gweithredu gyda dull ystwyth ac ysgafn. Bydd y dull gweithredu yn golygu y gellir galw am gymorth ar gyfer darnau penodol o waith yn hytrach na chynnal rhaglen drom o gyfarfodydd rheolaidd. Gwasanaeth Gwaed Cymru fydd yn darparu'r Ysgrifenyddiaeth.

## Sut a pham?

- Cyngor, cynllunio a chymorth syml, effeithiol a dargedwyd i ddarparu a gwella trallwysiad gwaed ar lefel Cymru gyfan
- Llywodraethu clir a chadarn
- Perchenogaeth glinigol ac wedi'i harwain yn glinigol
- Rhan o systemau a phrosesau GIG Cymru
- Ymateb i'r her gan randdeiliaid a gwleidyddion ar gyfer canolbwynt i reoli gwaed yn well

Rydym yn cydnabod y bydd y model newydd hwn ond yn gweithio os yw wir yn gysylltiedig â systemau, prosesau a grwpiau presennol ac yn cydnabod mai dim ond byrddau iechyd sydd â'r ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau. Byddwn yn disgwyl i'r grwpiau hyn ymgysylltu â'r strwythur hwn fel y prif grŵp ar gyfer cyngor a chymorth Trallwysiad Gwaed.

Byddwn hefyd yn ymrwmo i fod yn hollol dryloyw, gan gyhoeddi data ac adroddiadau am gyflawniadau yn erbyn y strategaeth yn agored.



## Cynllun Iechyd Gwaed y GIG - Cyflawni'n Camau Gweithredu

Nod yr adran hon o'r cynllun yw casglu gweithgarwch presennol a newydd ledled Cymru. Bydd yn parhau i fod yn gofnod byw o gamau gweithredu a chaiff ei chynnal gan y grŵp arwain.

### Cefnogi unigolion i reoli eu hiechyd a'u lles, gan osgoi ymyrraeth ddiangen

Camau Gweithredu	Gweithgarwch cyfredol mewn Byrddau Iechyd Lleol a Gwasanaeth Gwaed Cymru	Cam Gweithredu Newydd ar gyfer y Bwrdd Iechyd	Camau Gweithredu Cenedlaethol newydd wedi'u harwain gan Wasanaeth Gwaed Cymru	Mesurau Llwyddiant
Byddwn yn gweithio ar gyfer grwpiau cleifion a grwpiau poblogaeth penodol sy'n wynebu'r risg fwyaf er mwyn gwella ymwybyddiaeth o anemia diffyg haearn	Rhaglenni clinigau haearn cyn llawdriniaeth presennol ar gyfer llawdriniaeth gardiaidd yng Nghaerdydd a'r Fro	Nodi timau gofal sylfaenol i weithio gyda nhw fel meysydd ffocws	Gwella'r wybodaeth gyhoeddus sydd ar gael am anemia diffyg haearn, adolygu cynnwys ar-lein a thafleuni gwybodaeth  Datblygu negeseuon craidd syml a'u profi gyda'r cyhoedd  Comisiynu rhagor o waith ymchwil ar ymwybyddiaeth y cyhoedd a diffyg haearn yn y boblogaeth	Gostyngiad mewn anemia diffyg haearn mewn poblogaethau penodol

Camau Gweithredu	Gweithgarwch cyfredol mewn Byrddau Iechyd Lleol a Gwasanaeth Gwaed Cymru	Cam Gweithredu Newydd ar gyfer y Bwrdd Iechyd	Camau Gweithredu Cenedlaethol newydd wedi'u harwain gan Wasanaeth Gwaed Cymru	Mesurau Llwyddiant
Bydd rhaglenni wedi'u targedu i helpu'r rheini sy'n darparu gofal yn y gymuned er mwyn helpu unigolion i atal, nodi a rheoli anemia		<p>Rhoi rhaglen ar waith er mwyn helpu Clystyrau Gofal Sylfaenol i gael gafael ar raglenni priodol</p> <p>Cefnogi'r gwaith o roi hyfforddiant i dimau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol</p> <p>Ystyried defnyddio pwyntiau'r Fframwaith Canlyniadau Ansawdd i hyrwyddo iechyd gwaed a rheoli anemia</p>	Arwain y gwaith o gynllunio rhaglenni hyfforddiant a chymorth	Gostyngiad mewn anemia diffyg haearn mewn poblogaethau penodol

Camau Gweithredu	Gweithgarwch cyfredol mewn Byrddau Iechyd Lleol a Gwasanaeth Gwaed Cymru	Cam Gweithredu Newydd ar gyfer y Bwrdd Iechyd	Camau Gweithredu Cenedlaethol newydd wedi'u harwain gan Wasanaeth Gwaed Cymru	Mesurau Llwyddiant
Datblygu egwyddorion anemia cenedlaethol a sicrhau y caiff yr egwyddorion eu hadlewyrchu mewn llwybrau gofal presennol	Gwaith cwmpasu cychwynol wedi'i gynnal gyda 1000 o fywydau ar lwybr anemia	Cyflwyno egwyddorion newydd i lwybrau gofal presennol yn raddol gan ddechrau gyda'r meysydd clinigol mwyaf perthnasol	Ymgynghori a datblygu egwyddorion cenedlaethol mewn partneriaeth â byrddau iechyd	Gostyngiad mewn anemia diffyg haearn mewn poblogaethau penodol
Datblygu canllawiau cenedlaethol ar gyfer trallwysu yn y gymuned	Prosesau trallwysiad cymunedol sydd eisoes yn digwydd mewn rhai byrddau iechyd gyda pholisïau lleol ar waith.  Mae Polisi Trallwysiad Allan o'r Ysbyty Cenedlaethol (wedi'i arwain gan GGC) yn bodoli - mae angen ei ddiweddarau am mai yn 2009 y cafodd ei ysgrifennu gyntaf	Adolygu gweithgarwch trallwysiad cymunedol	Adnewyddu a diweddarau polisi cenedlaethol	Nifer y trallwysïadau cymunedol fel % o'r gweithgarwch arfaethedig

Camau Gweithredu	Gweithgarwch cyfredol mewn Byrddau Iechyd Lleol a Gwasanaeth Gwaed Cymru	Cam Gweithredu Newydd ar gyfer y Bwrdd Iechyd	Camau Gweithredu Cenedlaethol newydd wedi'u harwain gan Wasanaeth Gwaed Cymru	Mesurau Llwyddiant
Llunio Canllaw Dewis Gofalus ar gyfer trallwysiad cydrannau gwaed	Ymwybyddiaeth o ddogfennaeth Dewis Gofalus o America		Gwirio'r canllaw o America a Lloegr ac a oes problem cynnwys yng Nghymru	Llunio Canllaw Dewis Gofalus ar gyfer trallwysiad cydrannau gwaed
Byddwn yn gweithio gyda grwpiau clinigol perthnasol i gefnogi'r gwaith o reoli gwaed unigoledig mewn llwybrau gofal perthnasol	Rhaglenni Addysg ar waith mewn rhai ardaloedd.  Llawer o enghreifftiau o arfer da lleol mewn ysbytai penodol  Rhaglenni gweithredol yn cael eu rhedeg gan Ymarferwyr Trallwyso  GGC yn rhedeg Diwrnodau Hyfforddiant F1 ac Aseu Cymhwysedd	Cefnogi ffocws Cychwynol ar Lwybr Cardiaidd - datblygu adolygiad llwybr gyda Rhwydwaith Cardiaidd fel prosiect braenaru	Arwain y ffocws ar Lwybr Cardiaidd - datblygu adolygiad llwybr gyda Rhwydwaith Cardiaidd fel prosiect braenaru  Casglu enghreifftiau o arfer da o bob rhan o Gymru a llunio 'canllaw arfer da'	Byddwn yn gweithio gyda grwpiau clinigol perthnasol i gefnogi'r gwaith o reoli gwaed unigoledig mewn llwybrau gofal perthnasol



Camau Gweithredu	Gweithgarwch cyfredol mewn Byrddau Iechyd Lleol a Gwasanaeth Gwaed Cymru	Cam Gweithredu Newydd ar gyfer y Bwrdd Iechyd	Camau Gweithredu Cenedlaethol newydd wedi'u harwain gan Wasanaeth Gwaed Cymru	Mesurau Llwyddiant
Adolygu llwybrau clinigol y pum defnyddiwr cydrannau gwaed mwyaf	Mae'r arolwg 'Where does Blood Go' yn rhoi sylfaen o'r prif feysydd defnydd	Dechrau gyda Llwybr Cardiaidd ym mlwyddyn un - datblygu model adolygu y gellir ei ddefnyddio mewn meysydd eraill	Meithrin cysylltiadau â Rhwydweithiau Clinigol - cyflwyno mewn Diwrnodau Archwilio a Byrddau Rhwydweithio	
Byddwn yn darparu addysg er mwyn helpu staff perthnasol i gael sgysiaid effeithiol er mwyn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau clinigol	Ymarferwyr Trallwysiad eisoes yn darparu addysg a chymorth mewn sawl maes  Hyfforddiant yn cael ei gynnegu i staff labordy gan GGC  Canllawiau a gyhoeddir gan GGC i gefnogi Banciau Gwaed	Adolygu cynnig addysg	Datblygu Cynnig Addysg GGC  Adolygu ansawdd a chynnwys canllawiau GGC i sicrhau eu bod yn hyrwyddo sgysiaid am reoli gwaed yn effeithiol	

Camau Gweithredu	Gweithgarwch cyfredol mewn Byrddau Iechyd Lleol a Gwasanaeth Gwaed Cymru	Cam Gweithredu Newydd ar gyfer y Bwrdd Iechyd	Camau Gweithredu Cenedlaethol newydd wedi'u harwain gan Wasanaeth Gwaed Cymru	Mesurau Llwyddiant
Sicrhau bod asesiadau cyn llawdriniaeth yn cynnwys asesu trallwysiadau ac iechyd gwaed - gan gynnwys tynnu cleifion sydd ag anemia oddi ar y rhestr lle y bo'n briodol	Wedi'i gynnwys mewn rhai prosesau cyn llawdriniaeth  Clinig Haeearn Mewnwythiennol Caerdydd ar gyfer Cleifion Llawdriniaeth Gardiaidd	Gweithio i ddechrau gyda Rhaglenni Addaswydd ar gyfer Llawdriniaeth ym mhob bwrdd iechyd (darn o waith 1000 o fywydau) i adolygu'r elfen trallwysiad		
	Rhaglenni Addaswydd ar gyfer Llawdriniaeth ar waith mewn rhai byrddau iechyd			

Camau Gweithredu	Gweithgarwch cyfredol mewn Byrddau Iechyd Lleol a Gwasanaeth Gwaed Cymru	Cam Gweithredu Newydd ar gyfer y Bwrdd Iechyd	Camau Gweithredu Cenedlaethol newydd wedi'u harwain gan Wasanaeth Gwaed Cymru	Mesurau Llwyddiant
Datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer polisiâu gwaedlif mawr	Polisiâu lleol ar waith ac yn cael eu hadolygu  Hwyluso'r broses o rannu polisiâu lleol mewn cyfarfodydd Ymarferwyr Trallwysiad		Adolygu polisiâu lleol a datblygu dogfen egwyddorion craidd cenedlaethol i gefnogi cysondeb ymarfer  Cynnal archwiliad mewn perthynas â gweithredu polisiâu gwaedlif mawr	

## Osgoi niwed, gan osod diogelwch ac ansawdd wrth wraidd gofal

Camau Gweithredu	Gweithgarwch cyfredol mewn Byrddau Iechyd Lleol a Gwasanaeth Gwaed Cymru	Cam Gweithredu Newydd ar gyfer y Bwrdd Iechyd	Camau Gweithredu Cenedlaethol newydd wedi'u harwain gan Wasanaeth Gwaed Cymru	Mesurau Llwyddiant
Sefydlu rhaglen archwilio i yrru'r broses o wella gwasanaethau	Mae Byrddau Iechyd eisoes yn cymryd rhan mewn rhai archwiliadau gorfodol  Archwiliad cenedlaethol yn flaenorol mewn rhaglen orfodol yng Nghymru  Archwiliad 'Where does Blood Go?'	Cymryd rhan mewn archwiliad priodol yn llawn	Siarad â chomisiynwyr rhaglenni archwilio cenedlaethol ynghylch cynnwys trallwysiad mewn archwiliadau perthnasol  Datblygu cynllun archwilio cenedlaethol gyda chylch blyneddol	

Camau Gweithredu	Gweithgarwch cyfredol mewn Byrddau Iechyd Lleol a Gwasanaeth Gwaed Cymru	Cam Gweithredu Newydd ar gyfer y Bwrdd Iechyd	Camau Gweithredu Cenedlaethol newydd wedi'u harwain gan Wasanaeth Gwaed Cymru	Mesurau Llwyddiant
Sicrhau bod proses cofnodi digwyddiadau cadarn (megis Peryglon Difrifol Trallwysio Gwaed) a phrosesau dilynol ar waith	<p>Cofnodi Adweithiau a Digwyddiadau Gwaed Niweidiol Difrifol a Pheryglon Difrifol Trallwysio Gwaed ar waith</p> <p>Ymarferwyr Trallwysiad eisoes yn dilyn olrhain achosion</p> <p>GGC yn ariannu cadeirydd y Grŵp Peryglon Difrifol Trallwysio Gwaed</p> <p>Cymorth ar gyfer cyhoeddiadau a chofnodi Peryglon Difrifol Trallwysio Gwaed ar waith</p>	Cynyddu gwelededd data Peryglon Difrifol Trallwysio Gwaed mewn systemau ansawdd a diogelwch byrddau iechyd	Darparu adroddiadau data cenedlaethol i gefnogi byrddau iechyd	Sicrhau bod proses cofnodi digwyddiadau cadarn (megis Peryglon Difrifol Trallwysio Gwaed) a phrosesau dilynol ar waith

Camau Gweithredu	Gweithgarwch cyfredol mewn Byrddau Iechyd Lleol a Gwasanaeth Gwaed Cymru	Cam Gweithredu Newydd ar gyfer y Bwrdd Iechyd	Camau Gweithredu Cenedlaethol newydd wedi'u harwain gan Wasanaeth Gwaed Cymru	Mesurau Llwyddiant
Sefydlu rhaglen adolygiad gan gymheiriaid		Cymryd rhan lawn mewn rhaglen adolygiad gan gymheiriaid	Arwain y gwaith o sefydlu rhaglen Adolygiad gan Gymheiriaid priodol	
Datblygu Strategaeth Addysg Iechyd Gwaed	Ymarferwyr Trallwysiad yn rhoi hyfforddiant i staff ym mhob rhan o'r bwrdd Iechyd  Nifer o gynigion addysgol ar waith e.e. Pwyllgor Cyngori Proffesiynol ar y Cyd, Rhaglen Meistr Awdurdodiad Anfeddygol, e-hyfforddiant		Adolygu cynigion hyfforddiant ac addysg a chreu 'cynnig' hyfforddiant GGC	

## Defnyddio tystiolaeth a data tryloyw i lywio'r gwaith o gynllunio a gwella gwasanaethau i leihau amrywiad amhriodol

Camau Gweithredu	Gweithgarwch cyfredol mewn Byrddau Iechyd Lleol a Gwasanaeth Gwaed Cymru	Cam Gweithredu Newydd ar gyfer y Bwrdd Iechyd	Camau Gweithredu Cenedlaethol newydd wedi'u harwain gan Wasanaeth Gwaed Cymru	Mesurau Llwyddiant
Sefydlu set data craidd cenedlaethol gyda mesur perfformiad a chanlyniadau y cytunwyd arno	Rhywfaint o waith yn mynd rhagddo ar lefel y DU	Datblygu set data craidd a chytuno arni	Cefnogi gweithgarwch a gweithio ar systemau data	
Sefydlu systemau ar gyfer penderfynu sut y caiff cydrannau gwaed eu defnyddio e.e. gan grwpiau diagnostig meddygol a llawfeddygol mawr a gan dimau clinigol a chlinigwyr unigol	Cofnodi ar lefel unigol ar waith gan rai LIMS  Data arolwg 'Where does Blood Go?'  Data Ysgol Meddygol Brighton a Sussex ar gael ar gyfer rhai elfennau	Adolygu argaeledd ffynonellau data unwaith y bydd set ddata craidd wedi'i sefydlu		

<p>Datblygu adnoddau a chyfleoedd ar gyfer cyflwyno data ar ddefnydd o waed a data archwilio yn ôl i dimau clinigol a chlinigwyr a phobl unigol</p>	<p>Drwy Ymarferwyr Trallwysiad</p> <p>Diwrnodau Archwiliadau Clinigol</p> <p>Fforymau Ymarferwyr Trallwysiad a Rheolwr Banc Gwaed</p>		<p>Datblygu dangosfwrdd ymhellach ar byrddau iechyd</p> <p>cynnig GGC gyfer</p>	
<p>Gweithredu'n hollol dryloyw, gan ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd am y defnydd o gydrannau gwaed</p>	<p>Rhywfaint o ddata archwilio cyhoeddi</p> <p>Rhywfaint o ddata ar stociau wedi'u cyhoeddi ar wefan GGC</p>		<p>Rhaglen cyhoeddi gwybodaeth am stociau a defnydd yn raddol ar wefan GGC</p>	